

# Labelu gwin

Canllawiau ar y gofynion labelu y mae'n rhaid i win eu bodloni er mwyn gallu ei werthu yn y Deyrnas Unedig (DU).

Rhaid i win a gynhyrchir yn y DU neu sy'n cael ei fewnforio i'r DU gydymffurfio â rheoliadau ar labelu gwin.

## Pwysig

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) wedi lansio [canllaw digidol](#) sy'n cwmpasu'r camau allweddol y gallai fod angen i fusnesau bwyd a diod eu cymryd ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Bydd y canllaw yn cynnwys y canllawiau diweddaraf ar gyfer cynhyrchwyr a masnachwyr gwin, ac yn cynnwys newidiadau ac ychwanegiadau wrth i wybodaeth bellach gael ei chadarnhau.

## Labelu 'gwin'

Rhaid dangos y disgrifiad 'Gwin' ar y label fel y categori ar gyfer gwin heb ddynodiad daearyddol lle nad yw'r disgrifiydd tarddle (provenance) yn cynnwys y term 'gwin'.

## Tarddle gwin

Caniateir i winoedd sydd heb ddynodiad daearyddol ddangos y wlad fel 'Gwin o Gymru (neu Loegr)', neu 'Cynnyrch o Gymru' neu 'Cynhyrchwyd yng Nghymru', yn hytrach na 'Gwin o'r Deyrnas Unedig' neu gyfwerth. Mae'n rhaid i winoedd eraill (Ansawdd, Rhanbarthol a phefriog) hefyd ddefnyddio un o'r fformatau hyn ar gyfer y wlad.

## Gwin amrywiaethol

Mae'n bosibl bod hawl gan winoedd o 2009 a blynyddoedd wedi hynny sydd heb eu cyflwyno a'u cymeradwyo ar gyfer y Cynllun Dynodiad Daearyddol Gwarchoddedig (Ansawdd Gwin) na'r Cynllun Enw Tarddiad Gwarchoddedig (Gwin Rhanbarthol) ddisgrifio un neu fwy o amrywiaethau a/neu flynyddoedd cynhaeaf drwy ddefnyddio'r disgrifiydd newydd 'Gwin Amrywiaethol' os ydynt yn mynd trwy Broses Ardystio cyn gwerthu'r gwin. Mae hyn yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth genedlaethol.

Mae gwybodaeth a ffurflenni ardystio ar gyfer gwin amrywiaethol ar gael ar [wefan Wines of Great Britain](#) (Wine GB). Rhaid cyflwyno ceisiadau i Wine GB. Caiff y rhain eu cyflwyno i Arolygwyr Safonau Gwin, a all ymweld â chynhyrchwyr i wirio bod cofnodion yn dangos manylion cynhyrchu ar gyfer y gwin yn y categori hwn.

## Canllawiau Cynlluniau Gwin Ansawdd y DU

Mae'n bwysig sicrhau bod eich labeli yn cydymffurfio â'r canllawiau canlynol:

- [Canllaw i Gynlluniau Gwin Ansawdd y DU – Gwinoedd llonydd](#) (Saesneg yn unig)
- [Canllaw i Gynlluniau Gwin Ansawdd y DU – Gwinoedd pefriog](#) (Saesneg yn unig)

Nid yw'n orfodol arddangos unedau alcohol na rhybuddion iechyd cysylltiedig ar win. Gellir dod o hyd i fanylion am yr eitemau hyn ar [wefan Portman Group](#).

## Labelu alergenau ar win

Gall gwin gynnwys alergenau a allai effeithio ar ddefnyddwyr sydd ag alergedd neu anoddefiad bwyd.

Rhaid i'r gwinoedd canlynol gynnwys datganiad ar un o'r labeli os oes unrhyw un o'r [14 alergen](#) sydd wedi'u dynodi gan gyfraith bwyd yn bresennol yn y cynnyrch:

- gwinoedd gyda mwy na 10 mg/litr o **syloffwr deuocsid**
- dylid labelu gwinoedd sy'n cael eu mireinio â **llaeth** neu gynhyrchion **wyau** (terfynau y gellir eu canfod yn y cynnyrch gorffenedig ar lefelau uwch na 0.25 mg/litr) yn glir.

Mae'n rhaid i'r geiriad gynnwys y gair 'contains' (yn Saesneg):

- **syloffwr deuocsid/syloffitau (*sulphites* a *sulfites*)**
- **'wy', 'protein wy', 'cynnyrch wy', 'lysosaim wy'** neu **'albwmin wy'**
- **'llaeth', 'cynhyrchion llaeth', 'casein llaeth'** neu **'protein llaeth'**

## Labeli ar win sy'n cael ei fewnforio

Nodir y prif ofynion ar gyfer gwahanol gategoriâu o win yn Labelu Gwinoedd o Drydydd Gwledydd 2020. I gael cyngor ar labeli penodol, dylech gysylltu â'ch [arolygwr rhanbarthol](#).

Dylai cynhyrchwyr o du allan i'r UE gyfeirio eu hymholiadau at eu mewnforiwr yn y DU. Dylai mewnforwyr yng ngwledydd eraill y Comisiwn Ewropeaidd (CE) gysylltu â'r awdurdodau yn y gwledydd hynny.